# Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2019

**Y BWRIAD I SEFYDLU DARPARIAETH CYNRADD AR GYFER CAMAU CYNNAR Y DATBLYGIAD YM MHLASDŴR**

9 Medi – 28 Hydref 2019



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn.



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


3 **Cyflwyniad**
Llyfryn am beth yw hwn?
Beth rydym yn cynnig ei wneud?

4 **Ymgynghoriad**
Â phwy ydym yn ymgynghori?
Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
Barn plant ar y cynigion
Mae eich barn yn bwysig i ni

6 **Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon**

7 **Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?**

8 **Pam fod ysgol ddwy ffrwd yn cael ei chynnig?**
Sut fyddai plant yn y ffrwd Gymraeg yn dysgu?
Sut bydd disgyblion yn dysgu yn y ffrwd Saesneg yn bennaf ond sydd â defnydd sylweddol o'r Gymraeg?
Beth fyddai iaith yr ysgol?
Sut byddai deilliannau'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn bennaf yn wahanol i unrhyw ysgol cyfrwng Saesneg arall?
Sut fyddai plant sy'n trosglwyddo i'r ysgol yn addasu i ddysgu mewn iaith newydd?
A fydd y cwricwlwm yn wahanol rhwng y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd fydd yn Saesneg yn bennaf?

11 **Dalgylchoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg**

12 **Beth fyddai'n cael ei gynnig yn yr ysgol newydd?**

13 **Ysgolion sydd yn gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd**
Cyfrwng Cymraeg
Cyfrwng Saesneg
Dwy Ffrwd

14 **Sawl lle ysgol gynradd sydd eu hangen?**
Nifer y llefydd mewn ysgolion lleol
Cyfanswm nifer y plant yn mynychu ysgolion yn yr ardal
Ymhle mae'r plant hyn yn byw?

18 **Faint o blant fydd angen lle yn y dyfodol?**
Y galw am lefydd ysgol cynradd cymunedol Saesneg
Galw am lefydd Cymraeg mewn ysgol gynradd gymunedol
Galw am lefydd o ddatblygiadau tai newydd

21 **Trefniadau Derbyn a Dalgylchoedd**

23 **Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?**
Darpariaeth Gynradd
Darpariaeth ysgol uwchradd

Beth fyddai’r effaith ar ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar?

**26 Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol**

**27 Ansawdd a Safonau**

Estyn

Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Sut byddai’r newid yn effeithio ar safonau?

Beth fyddai’r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Beth fyddai’r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Beth fyddai’r effaith ar ddisgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Beth fyddai’r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

**31 Beth yw manteision y cynnig?**

**31 Anfanteision posibl y cynnig**

**32 Risgiau sydd ynghlwm â’r cynnig**

**32 Dewisiadau eraill sydd wedi eu diystyru**

**33 Trefniadau Llywodraethiant**

**33 Materion Ariannol**

**34 Materion Staff**

**34 Materion Trafnidiaeth**

**35 Trefniadau Teithio Dysgwyr**

**35 Effaith y cynnig ar y Gymraeg**

**35 Cydraddoldeb**

**36 Effaith Gymunedol**

**36 Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

**37 Cwestiynau Cyffredin**

**38 Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a’r ffurflen adborth**

Dyddiadau Allweddol

Y cyfnod ymgynghori

Hysbysiad Statudol

Adroddiad Gwrthwynebu

Penderfynu ar y cynnig

Hysbysu’r Penderfyniad

**40 Dweud Eich Dweud**

Diolch ichi am eich sylwadau.

**42 Atodiadau**

**43 Atodiad 1**

Dadansoddiad cryno o’r disgyblion sy’n byw yn nalgylch pob ysgol

**45 Atodiad 2**

Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

# Cyflwyniad

## Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Mae'n nodi manylion y cynnig ar gyfer sefydlu ysgol gynradd newydd i wasanaethu camau cyntaf yn natblygiad tai Plasdŵr yng Ngogledd Orllewin Caerdydd.

Rydym am i bawb ddeall y wybodaeth fel y gallwch ddweud eich barn wrthym.

## Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Bydd yr ysgol newydd ym Mhlasdŵr yn ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad, gyda dwy ffrwd iaith, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

- Un dosbarth mynediad Cymraeg (30 o lefydd fesul grŵp blwyddyn)
- Un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf sydd â defnydd sylweddol o'r Gymraeg (30 o lefydd fesul grŵp blwyddyn)

Golyga hyn y ceid cyfanswm o 420 o lefydd i hyd.

Bydd hefyd 48 o leoedd rhan amser yn y feithrinfa ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 o leoedd meithrin ar gyfer y ffrwd Saesneg.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2021.

Mae'r ysgol newydd i gael ei chaffael gan y datblygwr a disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau yn Haf 2021.

Ysgol gynradd newydd a adeiladwyd yn ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Glan Morfa



# Ymgynghoriad

## Â phwy ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

### Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

| Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni / gofalwyr | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Cynghorau Cymuned | Undebau Llafur |
| Aelodau Lleol/Aelodau Cynulliad (ACau)/ Aelodau Cynulliad Rhanbarthol/Aelodau Seneddol (AS) | Darparwyr gofal plant |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Mudiad Meithrin |
| Awdurdodau Cymdogol | Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd | Clybiau Plant Cymru Kids Club |
| Estyn | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | |

### Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

- Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yn electronig ar wefan Cyngor Caerdydd www.cardiff.gov.uk/Plasdwrschool
- Bydd copïau argraffedig o'r ddogfen hon ar gael yn y Llyfrgell Ganolog, Llyfrgell Radur a Hyb Y Tyllgoed.

- Rydym wedi trefnu sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech chi i ni esbonio'r newidiadau awgrymedig i chi ac i chi ofyn cwestiynau.
- Gallwch hefyd ysgrifennu atom i ddweud beth yw eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod:

| Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori | | |
|---|---|---|
| **Natur yr Ymgynghoriad** | **Dyddiad/Amser** | **Lleoliad** |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 16 Medi, 10.00 – 11.30 am | Swyddfa safle Redrow, Clos Parc Radur |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Llun 30 Medi, 6.30 – 8.00pm | Ysgol Gyfun Radur |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 1 Hydref, 10.00 – 11.30am | Canolfan Hamdden y Tyllgoed |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 3 Hydref, 5.00 – 7.30pm | Llyfrgell Ganolog |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 7 Hydref, 2.00 -3.30pm | Llyfrgell Radur |

## Barn plant ar y cynigion

Mae'n bwysig wrth ddwyn cynigion ger bron, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion mewn ysgolion lleol a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym ni beth rydych yn feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu un o'r sesiynau galw heibio uchod.
- Cwblhau y ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 40
- Cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael www.caerdydd.gov.uk/YsgolPlasdwr
- Cysylltu â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2720, drwy e-bostio: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Yst. 422, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Nodwch fod yn rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Llun 28 Hydref 2019.** Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried.

## Eglurhad o’r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

**Nifer Derbyn** - mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig T<}0{>Y nifer derbyn yw nifer y llefydd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob un

**ADY** - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gallai hyn fod oherwydd anawsterau dysgu, anableddau corfforol neu broblemau ymddygiadol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Cyllid cyfalaf i ysgolion** - arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy’n bod eisoes.

**Ysgolion Cymunedol** - ysgol gynradd neu uwchradd lle mae’r Cyngor yn trefnu derbyniadau ysgolion.

**Dalgylch** - ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu. Mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i’r ysgol na phlant y tu allan i’r ardal.

**Data Nifer ar y Gofrestr** - nifer y disgyblion sy’n mynd i’r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**Llefydd dros ben** - llefydd gweigion mewn ysgol.

**CYBLD** - Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy’n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Gweithredu gan yr Ysgol** - Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** - Pan fo arbenigwyr o’r tu allan yn helpu staff dosbarth neu ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu yn ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

**Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae gan blentyn sydd â datganiad o ADY anawsterau dysgu sydd angen cymorth arbenigol. Golyga hyn:

- mae anhawster dysgu sylweddol uwch gan y plentyn na’r rhan fwyaf o blant yr un oed, neu
- mae anabledd ar y plentyn sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i’r rhai y mae’r ysgol fel rheol yn ei ddarparu i blant.

**Adran 106 (A106)** - cytundeb cyfreithiol rhwng ymgeisydd sy’n gwneud cais am ganiatâd cynllunio a’r awdurdod lleol (Cyngor Caerdydd), a gaiff ei ddefnyddio i liniaru effaith unrhyw gartrefi newydd ar y gymuned leol a’r seilwaith

**Hysbysiad Statudol** - hysbysiad statudol yw’r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol.

Gwneir hyn dim ond os bydd Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r cynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Bydd datblygiadau tai newydd yng ngogledd orllewin Caerdydd yn cynyddu nifer y plant fydd angen llefydd ysgol yn yr ardal, a bydd hyn yn cael effaith ar argaeledd llefydd yr ysgolion presennol.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu cam cyntaf datblygiad Plasdŵr (hyd at 630 o anheddau) gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym mis Chwefror 2016.

Fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r Cyngor, mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle i wasanaethu'r tai yn y cam cyntaf, yr ardal ehangach a pheth datblygiadau tai yn y dyfodol sydd hefyd wedi eu cynllunio.

Hyd yma, mae tua 90 o dai wedi eu cwblhau a'u meddiannu ar gam cynnar y datblygiad ar ochr ogleddol Heol Llantrisant.

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Gynradd Pontprennau



## Pam fod ysgol ddwy ffrwd yn cael ei chynnig?

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (2017) yn gosod gweledigaeth ger bron o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gellir gweld y strategaeth yma: https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg?_ga=2.254041096.141879426.1566458610-1326825099.1527096435

Nod y strategaeth yw i 40 y cant o blant yng Nghymru, ym mhob grŵp blwyddyn, i dderbyn addysg Gymraeg, gyda phob un yn gallu adrodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, yn allweddol i'r Strategaeth yw bod hanner y 60 y cant o blant sy'n weddill mewn addysg Saesneg hefyd yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Ni ellir cyflawni targedau Cymraeg 2050 yng Nghaerdydd drwy sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn unig. Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd gyflawni newid sylweddol yn y modd y galluogir plant mewn ysgolion Saesneg i fod yn fwy rhugl yn y Gymraeg ac â'r hyder i ddefnyddio'r iaith.

Byddai'r model ysgol newydd hwn yng Nghaerdydd yn galluogi plant o fewn ac yn agos i'r datblygiad newydd ym Mhlasdŵr i allu cyrchu ysgol gynradd leol ac i dderbyn addysg Gymraeg neu Saesneg, pa un bynnag yw eu dewis.

Yn y blynyddoedd diweddar mae Caerdydd wedi gweld canlyniadau llwyddiannus gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion Cymraeg a rhai Saesneg, gan greu cyfleoedd dysgu cadarnhaol i'r ddwy ysgol bartner. Byddai'r model hwn yn galluogi gwaith partneriaeth agos rhwng y ddwy ffrwd trwy rannu safle a chyfleusterau. Byddai'n hwyluso trochiad iaith llawn ar gyfer y plant yn y ffrwd Gymraeg tra hefyd yn galluogi plant yn y ffrwd Saesneg yn bennaf i gael caffaeliad fwy cadarn ar y Gymraeg.

Mae gan yr ymagwedd arloesol y potensial i wasanaethu fel model o ragoriaeth ieithyddol, a fydd yn gallu cefnogi arfer newydd mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.

### Sut fyddai plant yn y ffrwd Gymraeg yn dysgu?

Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu yn Gymraeg yn bennaf.

Bydd pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (trochi Cymraeg).

Yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6) bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno fel iaith ac fel y cyfrwng addysgu ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm. Bydd disgyblion yn cael eu hasesu'n Gymraeg yn bennaf gyda rhywfaint o asesu Saesneg lle y bo'n briodol.

Bydd termau cyffredin yn cael eu cyflwyno yn y meysydd dysgu a phrofiad yn y ddwy iaith. Bydd disgyblion yn datblygu'n briodol yn Gymraeg a Saesneg erbyn yr adeg y byddant yn 11 oed.

## Sut bydd disgyblion yn dysgu yn y ffrwd Saesneg yn bennaf ond sydd â defnydd sylweddol o'r Gymraeg?

Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda llawer mwy o bwyslais ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg nag mewn ysgol cyfrwng Saesneg.

Byddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel y cyfrwng addysgu neu ddysgu ar gyfer hyd at 50% o'r cwricwlwm drwy gydol cyfnod y plentyn yn yr ysgol.

Yn gyffredinol, bydd y Gymraeg a meysydd o ddysgu a phrofiad sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg yn cael eu profi'n y Gymraeg, a bydd meysydd o ddysgu a phrofiad sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg yn cael eu profi'n y Saesneg.

## Beth fyddai iaith yr ysgol?

Byddai Cymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio ym musnes yr ysgol o ddydd i ddydd.

Cymraeg fyddai'r iaith gyfathrebu gyda disgyblion yn y ffrwd Gymraeg. Byddai iaith cyfathrebu â'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn bennaf yn cael ei bennu gan y cwricwlwm, ac yn briodol ar gyfer camau dysgu'r disgyblion.

Byddai blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i greu ethos Gymraeg drwy'r ysgol i gyd.

Byddai'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.

## Sut byddai deilliannau'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn bennaf yn wahanol i unrhyw ysgol cyfrwng Saesneg arall?

Mewn ysgol cyfrwng Saesneg, y disgwyliad arferol yw y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd Saesneg.

Fodd bynnag, gall pob plentyn yng Nghaerdydd drosglwyddo i ysgol cyfrwng Saesneg neu i ysgol Gymraeg, os mai dyma yw eu dymuniad. Gall plentyn fynd yn ei flaen i'r un cyfrwng addysg, neu fynd yn ei flaen i'r cyfrwng arall os mai dyna ddymuniad y rhieni. Yn y blynyddoedd diweddar mae nifer gynyddol o deuluoedd wedi penderfynu trosglwyddo eu plant o ysgol gynradd Saesneg i ysgol uwchradd Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod cynradd. Mae hyn wedi ei gefnogi gan athrawon arbenigol yn Uned trochi'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

Yn yr ysgol newydd hon y disgwyliad yw y bydd disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn bennaf wedi ennill yr hyder a'r sgiliau i allu dewis trosglwyddo i ba iaith bynnag fyddai eu dewis.

Un o amcanion y model arfaethedig yw rhoi hyder i rieni y byddai eu plentyn yn ffynnu i'r un graddau yn y naill gyfrwng ysgol neu'r llall. Byddai disgyblion yn derbyn cefnogaeth ddigonol i drosglwyddo, gyda chyfleoedd trochi priodol i'w galluogi nhw i gyrraedd y rhuglder angenrheidiol i allu cyrchu ystod lawn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Sut fyddai plant sy'n trosglwyddo i'r ysgol yn addasu i ddysgu mewn iaith newydd?

Yng Nghaerdydd, mae pob teulu sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o ysgol Saesneg i ysgol Gymraeg yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny. Mae Caerdydd yn cynnal Uned Drochi Gymraeg lwyddiannus iawn, sy'n galluogi plant i ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg yn gyflym ac i gyrchu pob agwedd ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai plant sy'n trosglwyddo i'r naill ffrwd neu'r llall yn yr ysgol newydd arfaethedig yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Mae'r Uned Drochi yn galluogi disgyblion i gyflawni sgiliau iaith priodol i'w hoed er mwyn cael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd yn eu hysgol gartref. Mae plant yn dysgu'r holl eiriau a'r ymadroddion allweddol ac yna'n adeiladu ar y wybodaeth hon tan eu bod yn rhugl.


## A fydd y cwricwlwm yn wahanol rhwng y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd fydd yn Saesneg yn bennaf?

Mae'r Cwricwlwm Cymru newydd yn gosod y disgwyliadau ar gyfer ysgolion a dysgwyr. Bydd yna un cwricwlwm ar gyfer Cymru a fydd yn berthnasol i ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg ac ysgolion dwyieithog. Bydd y disgwyliadau yng Nghymru ar gyfer y rheiny sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg yn cynyddu'n raddol wrth i'r garfan gyntaf ddysgu trwy'r cwricwlwm newydd er mwyn gwireddu'r uchelgais cenedlaethol o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd – Ysgol Glan Morfa



# Dalgylchoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg




**Dalgylchoedd Saesnegs**

- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Pentyrch
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Pentre-Baen
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Radur
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Peter Lea
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Bryn Deri
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Creigiau
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Danescourt
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG y Tyllgoed
- Cysgodi'n dynodi dalgylch YG Gwaelod y Garth

**Dalgylchoedd Cymraeg**

- Ffin yn dynodi dalgylch Ysgol Creigiau
- Ffin yn dynodi dalgylch Ysgol Coed-Y-Gof
- Ffin yn dynodi dalgylch Ysgol Nant Caerau
- Ffin yn dynodi dalgylch Ysgol Pencae
- Ffin yn dynodi dalgylch Ysgol Gwaelod-Y-Garth

**Safleoedd ysgol**

- Safle ysgol Saesneg
- Safle ysgol Gymraeg
- Safle ysgol ffydd
- Safle ysgol newydd a gynigir

# Beth fyddai'n cael ei gynnig yn yr ysgol newydd?

Mae'r cyngor wedi gweithio'n agos gyda'r datblygwr tai a'i bartneriaid i greu gweledigaeth a briff dylunio clir sy'n galluogi'r contractwr i ddylunio ysgol a fydd yn diwallu gofynion y Cyngor.

Byddai unrhyw ysgol newydd, gan gynnwys yr un a amlinellir yn y cynnig hwn, yn gorfod bodloni'r Adran Addysg: Canllawiau ardal ar gyfer ysgolion prif ffrwd, sy'n nodi'r cyfleusterau canlynol sydd i'w cynnwys yn unrhyw ysgol.

- Lle addysgu: mewnol ac allanol
- Ardal/Neuadd fwyta
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Ardaloedd Staff a gweinyddu
- Storfa
- Tai bach a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, offer mawr a waliau mewnol

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad



# Ysgolion sydd yn gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Ceir llefydd cynradd yn yr ardal ehangach (Creigiau / Sain Fagan, Radur/ Pentre-poeth a'r Tyllgoed) mewn nifer o ysgolion cynradd Saesneg, ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd:

## Cyfrwng Cymraeg

Ceir tair ysgol gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd:

- Ysgol Gymraeg Coed y Gof
- Ysgol Gymraeg Nant Caerau
- Ysgol Pencae

Yr ysgolion Cymraeg sydd agosaf at yr ysgol newydd arfaethedig i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr yw Ysgol Gymraeg Coed y Gof ac Ysgol Pencae.

## Cyfrwng Saesneg

Mae saith ysgol gynradd gymunedol Saesneg:

- Ysgol Gynradd Bryn Deri
- Ysgol Gynradd Danescourt
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Ysgol Gynradd Pentre-Baen
- Ysgol Gynradd Pentyrch
- Ysgol Gynradd Peter Lea
- Ysgol Gynradd Radur

Yr ysgolion Saesneg agosaf i'r ysgol newydd arfaethedig i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr yw Ysgol Gynradd Danescourt, Ysgol Gynradd Radur ac Ysgol Gynradd Peter Lea.

Mae dwy ysgol ffydd Saesneg hefyd yn gwasanaethu'r ardal, Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf.

## Dwy Ffrwd

Ceir dwy ysgol gynradd ddwy ffrwd sy'n gwasanaethu'r ardal, y naill a'r llall yn cynnig addysg Gymraeg ac addysg Saesneg mewn ffrydiau ar wahân.

- Ysgol Gynradd Creigiau
- Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth

## Sawl lle ysgol gynradd sydd eu hangen?

Wrth ystyried sawl lle ysgol sydd eu hangen, mae'r ffactorau canlynol yn bwysig:

- Nifer y llefydd ym mhob ysgol
- Cyfanswm nifer y plant yn yr ardal
- Ymhle mae'r plant hyn yn byw?
- Faint o blant fydd angen lle yn y dyfodol?

### Nifer y llefydd mewn ysgolion lleol

Capasiti ysgol gynradd yw nifer y llefydd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran o'r Dosbarth derbyn i flwyddyn 6, ar gyfer plant rhwng pedair ac unarddeg oed. Mae gan lawer o ysgolion lefydd mewn dosbarthiadau meithrin hefyd.

Nifer Derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn ym mhob blwyddyn yn yr ysgol.

Mae capasiti a nifer derbyn ysgol wedi eu seilio ar sut y caiff ystafelloedd dosbarth a gofodau eraill yn yr ysgol eu defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu.

Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad



Mae Tabl 3 isod yn dangos manylion y llefydd sydd ar gael yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal leol

## Tabl 3: Llefydd sydd ar gael mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal

| Enw'r Ysgol | Capasiti cyhoeddedig presennol (4-11 oed) | Llefydd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Llefydd Meithrin | Cyfrwng Iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | 184 | 30 | 80 | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Creigiau (Dwy Ffrwd) | 378 | 29 Cyfrwng Saesneg<br>29 Cyfrwng Cymraeg | 32 Cyfrwng Saesneg | Dwy Ffrwd |
| 32 Cyfrwng Cymraeg | Dwy Ffrwd | 60 | 64 | English-medium |
| Ysgol Gynradd Danescourt | 420 | 60 | 64 | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | 283 | 40 | Dd/B | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd | 247 | 35 | Dd/B | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf | 420 | 60 | Dd/B | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 210 | 30 | 48 | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | 140 | 20 | Dd/B | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | 320 | 45 | 96 | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Radur | 376 | 60 | 48 | Cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gymraeg Coed y Gof | 389 | 60 | Dd/B | Cyfrwng Cymraeg |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 207 | 30 | 48 | Cyfrwng Cymraeg |
| Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth (Dwy Ffrwd) | 237 | 7 Cyfrwng Saesneg<br>26 Cyfrwng Cymraeg | 40 Cyfrwng Cymraeg | Dwy Ffrwd |
| Ysgol Pencae | 186 | 30 | Dd/B | Cyfrwng Cymraeg |

## Cyfanswm nifer y plant yn mynychu ysgolion yn yr ardal

Mae'r data cyfrifiad ysgolion diweddaraf a ddilyswyd ar adeg cyhoeddi yn dod o fis Ionawr 2018. Bydd gwybodaeth cyfrifiad wedi ei ddiweddaru ar gyfer 2019 ar gael yn electronig ar wefan Cyngor Caerdydd ym mis Hydref 2019 yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolPlasdwr.

Mae Tabl 4 isod yn dangos:

- nifer y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgolion cynradd Saesneg a dwy ffrwd sy'n gwasanaethu'r ardal
- pa ysgolion a fynychir gan y disgyblion hynny
- nifer y llefydd dros ben (gwag) ymhob ysgol ym mis Ionawr 2018.

**Tabl 4: Nifer ar y Gofrestr a chyfanswm y llefydd dros ben – Derbyn i Blwyddyn 6** (CYBLD: Ionawr 2018) (Ysgolion cynradd Saesneg a dwy ffrwd)

| Ysgol Gynradd | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm | School Capacity | Surplus Places | % Surplus Places |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bryn Deri | 31 | 30 | 30 | 30 | 29 | 28 | 29 | Disgyblion | Capasiti | -23 | -12.50 % |
| Creigiau (Dwy Ffrwd) | 49 | 54 | 58 | 49 | 53 | 53 | 50 | Ysgol | Llefydd dros ben | 12 | 3.17 % |
| Danescourt | 60 | 60 | 57 | 59 | 60 | 49 | 39 | | % Llefydd dros ben | 36 | 8.57 % |
| Y Tyllgoed | 20 | 39 | 37 | 37 | 40 | 30 | 35 | 238 | 283 | 45 | 15.90 % |
| Gwaelod y Garth (Dwy Ffrwd ) | 35 | 37 | 38 | 34 | 35 | 34 | 36 | 249 | 237 | -12 | -5.06 % |
| Catholig Teulu Sanctaidd | 23 | 15 | 15 | 26 | 19 | 24 | 20 | 142 | 247 | 105 | 42.51 % |
| Eglwys yng Nghymru Llandaf | 60 | 60 | 60 | 59 | 60 | 60 | 60 | 419 | 420 | 1 | 0.24 % |
| Pentre-baen | 24 | 30 | 35 | 30 | 26 | 31 | 32 | 208 | 210 | 2 | 0.95 % |
| Pentyrch | 23 | 21 | 21 | 25 | 15 | 12 | 17 | 134 | 140 | 6 | 4.29 % |
| Peter Lea | 44 | 44 | 38 | 48 | 44 | 47 | 40 | 305 | 320 | 15 | 4.69 % |
| Radur | 58 | 59 | 61 | 60 | 60 | 60 | 44 | 402 | 420 | 18 | 4.29 % |
| **Cyfanswm** | 427 | 449 | 450 | 457 | 441 | 428 | 402 | 3054 | 3259 | 205 | 6.3 % |

Ar hyn o bryd ceir 205 o lefydd ysgol Saesneg a dwy ffrwd cynradd sydd dros ben (6 % ) o fewn ardal ehangach Creigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a Danescourt.

Gan ystyried yn unig yr ysgolion Saesneg agosaf i'r ysgol newydd arfaethedig i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr (sef Ysgol Gynradd Danescourt, Ysgol Gynradd Radur ac Ysgol Gynradd Peter Lea), ychydig iawn o lefydd dros ben sydd (69) – sef tua 6 % o'r capasiti.

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Gynradd Howardian



Mae Tabl 5 isod yn dangos:

- nifer y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgolion cynradd Cymraeg a dwy ffrwd sy'n gwasanaethu'r ardal
- pa ysgolion a fynychir gan y disgyblion hynny
- nifer y llefydd dros ben (gwag) ymhob ysgol ym mis Ionawr 2018 (data cyfrifiad ysgol diweddaraf a ddilyswyd).

**Tabl 5: Nifer ar y Gofrestr a chyfanswm y llefydd dros ben – Derbyn i Blwyddyn 6** (CYBLD Ionawr 2018) (Ysgolion cynradd Cymraeg a dwy ffrwd)

| Ysgol | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm | Capasiti | Llefydd dros ben | % Llefydd dros ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Creigiau (Dwy Ffrwd Gymraeg) | 49 | 54 | 58 | 49 | 53 | 53 | 50 | 366 | 378 | 12 | 3.17% |
| Ysgol Coed y Gof | 51 | 54 | 59 | 48 | 45 | 41 | 38 | 336 | 389 | 53 | 13.62% |
| Ysgol Nant Caerau | 30 | 31 | 26 | 28 | 29 | 27 | 26 | 197 | 207 | 10 | 4.83% |
| Gwaelod y Garth (Dwy Ffrwd ) | 35 | 37 | 38 | 34 | 35 | 34 | 36 | 249 | 237 | -12 | -5.06% |
| Ysgol Pencae | 30 | 29 | 29 | 30 | 29 | 30 | 30 | 207 | 186 | -21 | -11.29% |
| **Cyfanswm** | 195 | 205 | 210 | 189 | 191 | 185 | 180 | 1355 | 1397 | 42 | 3.0% |

Ar hyn o bryd mae 42 o lefydd dros ben mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwy ffrwd yn yr ardal ehangach, sef 3% o'r cyfanswm.

Wrth ystyried y ddwy ysgol Gymraeg agosaf i'r ysgol newydd arfaethedig i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr (Ysgol Pencae ac Ysgol Coed y Gof), ychydig o lefydd dros ben sydd (32) sef tua 6% o'r capasiti.

## Ymhle mae'r plant hyn yn byw?

Mae dadansoddiad cryno o'r disgyblion sydd yn byw yn nalgylch pob ysgol wedi eu nodi yn Nhabl 6 a 7 yn atodiad 1 (tud 43).

# Faint o blant fydd angen lle yn y dyfodol?

## Y galw am lefydd ysgol cynradd cymunedol Saesneg

Mae'r galw ar gyfer llefydd cynradd cymunedol Saesneg ym mhob un o'r dalgylchoedd cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal yn amrywio.

Mae Tabl 8 isod yn dangos y galw diweddar ac yn y dyfodol (a amcanestynnir) ar gyfer llefydd mynediad Derbyn Saesneg yn nalgylchoedd cynradd cymunedol ardaloedd Creigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre-poeth a'r Tyllgoed, o'r tai sydd yno ar hyn o bryd.

### Tabl 8: Galw presennol ac a amcanestynir am lefydd mynediad Derbyn Saesneg ysgolion cynradd cymunedol o fewn pob dalgylch

| Dalgylch | Nifer Derbyn Cyhoeddedig | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bryn Deri | 30 | 25 | 31 | 36 | 22 | 20 | 21 |
| Creigiau (Ffrwd Saesneg) | 29 | 14 | 12 | 15 | 12 | 20 | 16 |
| Danescourt | 60 | 23 | 23 | 26 | 28 | 38 | 23 |
| Y Tyllgoed | 40 | 41 | 50 | 41 | 51 | 40 | 50 |
| Gwaelod Y Garth (Ffrwd Saesneg) | 7 | 5 | 2 | 4 | 5 | 5 | 7 |
| Pentre-baen | 30 | 41 | 36 | 49 | 47 | 37 | 35 |
| Pentyrch | 20 | 24 | 28 | 28 | 33 | 39 | 31 |
| Peter Lea | 45 | 42 | 49 | 36 | 54 | 40 | 49 |
| Radyr | 60 | 71 | 60 | 52 | 59 | 58 | 53 |
| **Cyfanswm** | **321** | **286** | **291** | **287** | **310** | **297** | **285** |
| Llefydd dros ben/ a amcanestynnir | | 40 | 30 | 34 | 11 | 24 | 36 |
| | | 12% | 9% | 11% | 3% | 7% | 11% |

## Galw am lefydd Cymraeg mewn ysgol gynradd gymunedol

Mae'r galw ar gyfer llefydd cynradd cymunedol Cymraeg ym mhob un o'r dalgylchoedd cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal yn amrywio.

Mae Tabl 9 isod yn dangos y galw diweddar ac yn y dyfodol (a amcanestynnir) ar gyfer llefydd mynediad Derbyn Cymraeg yn nalgylchoedd cynradd cymunedol ardaloedd Creigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre-poeth a'r Tyllgoed, o'r tai sydd yno ar hyn o bryd.

**Tabl 9: Galw presennol ac a amcanestynnir am lefydd mynediad Derbyn Cymraeg ysgolion cynradd cymunedol o fewn pob dalgylch**

| Dalgylch | Nifer Derbyn Cyhoeddedig | 2015 -16 | 2016 -17 | 2017 -18 | 2018 -19 | 2019 -20 | 2020 -21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Creigiau (Ffrwd Gymraeg) | 29 | 16 | 21 | 18 | 21 | 24 | 25 |
| Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | 60 | 78 | 69 | 69 | 69 | 66 | 62 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 30 | 43 | 41 | 32 | 32 | 36 | 31 |
| Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth (Ffrwd Gymraeg) | 26 | 18 | 18 | 13 | 14 | 13 | 17 |
| Ysgol Pencae | 30 | 34 | 27 | 24 | 32 | 38 | 34 |
| **Cyfanswm** | **175** | **189** | **176** | **156** | **168** | **176** | **159** |
| Llefydd dros ben/ a amcanestynnir | | -14 | -1 | 19 | 7 | -1 | 6 |
| | | -8% | -1% | 11% | 4% | -1% | 4% |

Mae'r galw presennol ac a amcanestynnir ar gyfer llefydd ysgol cymunedol Cymraeg a Saesneg ym mhob un o ddalgylchoedd yr ysgolion cynradd yn amrywio, ond yn gyffredinol ychydig o lefydd dros ben a amcanestynnir.

Mae Tabl 8 a 9 yn cynnwys llefydd a gymerwyd, ac a amcanestynnir i gael eu cymryd, yn yr ysgolion cynradd cymunedol yng Nghaerdydd ac felly yn cynrychioli'r nifer amcanestyniadol mwyaf o ddisgyblion a fyddai efallai yn dymuno lle o'r math hwnnw pe byddai disgyblion yn cymryd llefydd yn nalgylchoedd eu cyfeiriadau cartref. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn cymryd llefydd mewn dalgylchoedd eraill a gellir disgwyl y bydd llawer yn parhau i wneud hynny. Gall disgyblion sy'n byw mewn awdurdodau lleol cymdogol sy'n ffinio'n agos â Chaerdydd hefyd gymryd llefydd yn ysgolion Caerdydd, yn amodol ar fod digon o lefydd ar gael. Efallai eu bod yn bodloni meini prawf gordanysgrifio uwch megis byw yn agosach na rhai ymgeiswyr o Gaerdydd.

Wrth gymharu â'r cyflenwad presennol o lefydd ar oed Derbyn ar draws yr ardal ehangach mae amcanestyniadau ar gyfer 2019-2021 yn awgrymu:

- Cyfartaledd o lefydd dros ben o 24 o lefydd cynradd Saesneg;
- Cyfartaledd o lefydd dros ben o 4 o lefydd ysgol gynradd Cymraeg;

Fodd bynnag, mae'r lefel bresennol o lefydd dros ben yn yr ysgolion cynradd Saesneg sydd agosaf i'r datblygiad newydd, gan gynnwys Ysgol Gynradd Radur, Peter Lea a Danescourt yn isel, sef 69 o lefydd (6% o'r capasiti).

Mae'r lefel bresennol o lefydd dros ben yn yr ysgolion cynradd Cymraeg sydd agosaf i'r datblygiad newydd, sef Ysgol Gymraeg Coed y Gof ac Ysgol Pencae hefyd yn isel, ar 32 o lefydd (hefyd yn 6% o'r capasiti).

Wrth gymharu â'r cyflenwad presennol o lefydd ar oed Derbyn ar draws y dalgylchoedd sy'n gwasanaethu'r pum ysgol yma, mae amcanestyniadau ar gyfer blynyddoedd 2019 i 2021 yn awgrymu:

- Cyfartaledd o lefydd dros ben o 31 o lefydd cynradd Saesneg;
- Cyfartaledd o lefydd dros ben o 10 o lefydd ysgol cynradd Cymraeg;

Nid yw hyn yn cynnwys y disgyblion a fydd yn deillio o unrhyw un o'r datblygiadau tai newydd o fewn datblygiad Plasdŵr.

## Galw am lefydd o ddatblygiadau tai newydd

Mae nifer o ddatblygiadau tai newydd wedi eu cynnig yng ngogledd orllewin Caerdydd yn y blynyddoedd diweddar a fydd yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal sydd yn chwilio am lefydd ysgol ac a fydd yn effeithio ar argaeledd llefydd ysgol. Wrth i fwy o deuluoedd symud i'r datblygiadau tai newydd hyn, ni fydd yr ysgolion presennol yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y galw gyda'r cyfleusterau presennol.

Disgwylir i gam cyntaf y datblygiad, sef 630 o anheddau ar dir i'r gogledd a'r de o Heol Llantrisant, i gynhyrchu cyfartaledd o 27 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn pan fydd y datblygiad wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, disgwylir i ddatblygiad Plasdŵr yn ei gyfanrwydd gynhyrchu cyfartaledd o 229 o ddisgyblion fesul grŵp oed pan fydd y datblygiad wedi ei gwblhau.

Mae ysgol newydd yn cael ei darparu gan ddatblygwr y safle fel rhan o'r cytundeb cynllunio gyda'r cyngor i ateb y galw ar y datblygiad newydd a'r tai sy'n cael eu cynllunio i'r dyfodol. Prif ddiben darpariaeth ysgol newydd yw i wasanaethu'r disgyblion a fydd yn byw o fewn y datblygiadau newydd – bod y ddarpariaeth newydd yn angenrheidiol ac yn gymesur â nifer y disgyblion a ddisgwylir i ddod o'r datblygiad.

Ar adeg sefydlu'r ysgol, ni fyddai cam cyntaf y datblygiad wedi ei gwblhau. Rhagwelir y byddai'r cam hwn yn y datblygiad wedi ei gwblhau a'r anheddau wedi eu meddiannu rhwng 2022 a 2024.

Mae prif ddatblygwr datblygiad Plasdŵr yn cynnig adeiladu ysgol newydd ddwy ffrwd mewn un cam i wasanaethu'r datblygiad. Byddai hyn yn sicrhau digon o lefydd i'r nifer disgyblion a ddisgwylir a fydd yn byw ar y datblygiad a fydd angen llefydd cynradd pan fydd y 630 o anheddau wedi eu cwblhau.

Byddai'r nifer llefydd yn y ddwy ffrwd fynediad arfaethedig yn ddigon i ddiwallu anghenion y datblygiad. Byddai'r ysgol hefydd yn darparu digon o lefydd dros ben i ateb y galw am lefydd ysgol o'r 290 o anheddau sydd wedi eu cynllunio ar y safle i'r de o Heol Pentre-baen (cam 2), a rhan o'r galw a amcanestynnir o'r safle mwy yng ngogledd orllewin Caerdydd o hyd at 5,000 o anheddau yn ddiweddarach.

# Trefniadau Derbyn a Dalgylchoedd

Mae'r trefniadau ar gyfer sefydlu ysgolion newydd yng Nghaerdydd fel 'ysgolion cychwynnol' fel rheol ond yn gadael derbyniadau ar gyfer Meithrin a Derbyn ar adeg agor. Ni fyddai disgyblion yn cael eu derbyn i grwpiau blwyddyn 1-6 adeg agor. Byddai ysgol newydd yn tyfu a derbyn disgyblion i'r grwpiau blwyddyn hyn dros gyfnod o saith mlynedd. Mae hyn yn lliniaru effaith darpariaeth ysgol newydd ar ysgolion cymdogol ac yn galluogi'r ysgol i dyfu'n sefydlog.

Cynigir fod cynnydd cam wrth gam yn y Nifer Derbyn yn cael ei weithredu gyda derbyn i'r Dosbarth Derbyn â hyd at 30 o ddisgyblion fesul ffrwd gyda blwyddyn 1-2 yn gweithredu ar Nifer Derbyn is o 15 ym mis Medi 2021.

Byddai gweithredu trefniadau sy'n galluogi disgyblion i gofrestru mewn nifer cyfyngedig o grwpiau blwyddyn yn galluogi disgyblion cynradd sy'n byw yn y datblygiad newydd sydd rhwng oed Derbyn a Blwyddyn 2 ym mis Medi 2021 i gymryd llefydd yn yr ysgol gynradd leol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut fyddai derbyniadau i'r ysgol yn cael eu gweinyddu ar ôl ei sefydlu.

| Tabl: Sefydlu cam wrth gam a chynnydd yn y Nifer Derbyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Meithrin** | **R** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** |
| 2021-22 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 15 CS<br>15 CC | 15 CS<br>15 CC | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2022-23 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 15 CS<br>15 CC | 15 CS<br>15 CC | 0 | 0 | 0 |
| 2023-24 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 15 CS<br>15 CC | 15 CS<br>15 CC | 0 | 0 |
| 2024-25 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 15 CS<br>15 CC | 15 CS<br>15 CC | 0 |
| 2025-26 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 15 CS<br>15 CC | 15 CS<br>15 CC |
| 2026-27 | 48 CS<br>48 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC | 30 CS<br>30 CC |

Cyngor Caerdydd fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol gynradd newydd ac fe gaiff ceisiadau ar gyfer derbyn eu hasesu yn unol â threfniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Byddai ymgynghoriad ar y trefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/2022 yn cael ei gynnal rhwng 1 Medi 2019 a 1 Mawrth 2020 yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynnig hwn.

Ceir gwybodaeth fanwl ar drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y cyngor y gellir ei weld ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk)

Ysgol Hamadryad



## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?

### Darpariaeth Gynradd

Disgwylir mai ychydig fyddai effaith yr ysgol newydd ar ysgolion lleol eraill cyfagos, am y byddai'r ysgol ond yn gweithredu un dosbarth meithrin, un dosbarth Derbyn ac un dosbarth Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 cymysg ym mhob ffrwd ar adeg ei sefydlu.

Ni chredir y byddai agor pob blwyddyn ysgol yn yr ysgol arfaethedig newydd gyda nifer derbyn uwch yn ddatrysiad cynaliadwy oherwydd y gallai hyn effeithio'n negyddol ar ysgolion eraill yn yr ardal leol. Gallai hyn annog plant o ardaloedd eraill i gymryd lleoedd yn yr ysgol.

Ym mis Tachwedd 2018, roedd 25 disgybl o oed cynradd (Meithrin i Blwyddyn 6) a oedd yn byw ar gam cyntaf y datblygiad ym Mhlasdŵr. Mae'r disgyblion hyn yn mynd i gyfanswm o wyth ysgol ledled y ddinas. Ar hyn o bryd, mwyafswm nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol benodol yw tri. Cofrestrodd y mwyafrif o'r ysgolion hyn dri disgybl neu lai.

**Tabl 10: Niferoedd diweddar ac a amcanestynnir ar y gofrestr ac ysgolion cynradd lleol** (Derbyn i Flwyddyn 6 yn gynwysedig)

| Ysgolion | Capasiti Ysgol a Aseswyd | EAYG Ionawr 2015 | EAYG Ionawr 2016 | EAYG Ionawr 2017 | EAYG Ionawr 2018 | EAYG Ionawr 2019 | Amcanestyniad CYBLD 2020 * | Amcanestyniad CYBLD 2021 * | Amcanestyniad CYBLD 2022 * | Amcanestyniad CYBLD 2023 * | Amcanestyniad CYBLD 2024 * |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol newydd | **420** | - | - | - | - | - | - | - | 40-60 | 80-100 | 120-140 |
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | **184** | 196 | 204 | 195 | 207 | 209 | 210 | 210 | 211 | 211 | 210 |
| Ysgol Gynradd Creigiau (dwy ffrwd) | **378** | 365 | 367 | 370 | 366 | 365 | 377 | 379 | 381 | 383 | 386 |
| Ysgol Gynradd Danescourt | **420** | 319 | 345 | 360 | 384 | 410 | 420 | 420 | 418 | 420 | 418 |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | **283** | 205 | 216 | 234 | 238 | 243 | 253 | 255 | 246 | 242 | 229 |
| Ysgol Gwaelod y Garth (dwy ffrwd) | **237** | 228 | 225 | 239 | 249 | 245 | 256 | 249 | 248 | 248 | 248 |
| Ysgol Gynradd y Teulu Sanctaidd | **247** | 108 | 106 | 126 | 142 | 138 | 155 | 162 | 172 | 182 | 177 |
| Ysgol Gynradd Dinas Llandaf | **420** | 421 | 420 | 419 | 419 | 418 | 420 | 420 | 420 | 420 | 420 |
| Ysgol Gynradd Pentre-bane | **210** | 164 | 181 | 186 | 208 | 196 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | **140** | 122 | 133 | 136 | 134 | 133 | 140 | 140 | 140 | 140 | 140 |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | **320** | 311 | 320 | 316 | 305 | 307 | 298 | 294 | 290 | 294 | 295 |
| Ysgol Gynradd Radur | **376** | 365 | 369 | 386 | 402 | 411 | 420 | 420 | 420 | 420 | 420 |
| Ysgol Coed Y Gof | **389** | 351 | 352 | 341 | 336 | 327 | 325 | 331 | 324 | 323 | 324 |
| Ysgol Nant Caerau | **207** | 160 | 178 | 200 | 197 | 200 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 |
| Ysgol Pencae | **186** | 207 | 208 | 208 | 207 | 207 | 208 | 208 | 209 | 208 | 208 |

## Darpariaeth ysgol uwchradd

Mae Cam 1 datblygiad Plasdŵr, lle bydd yr ysgol newydd, yn gorgyffwrdd dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Gyfun Radur ac mae hefyd yn nalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

Mae'r datblygiad hefyd yn nalgylch Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ac Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi. Ond mae derbyniadau i'r ysgolion hyn yn blaenoriaethu meini prawf ar sail ffydd a/neu ar sail mynychu ysgol o'r un ffydd.

Mae'r galw yn y dalgylch am lefydd cyfrwng Saesneg ar ddechrau addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Radur yn is na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig, sef 210 lle. Mae amcanestyniadau'n awgrymu na fydd y galw o'r tai presennol yn nalgylch Ysgol Gyfun Radur yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

Mae'r galw yn y dalgylch am lefydd cyfrwng Saesneg ar ddechrau addysg uwchradd yn Ysgol Uwchradd Cantonian yn is na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig, sef 181 lle. Mae amcanestyniadau'n nodi na fydd y galw o'r tai presennol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion i ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian o chwe i wyth dosbarth mynediad (Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 240 o lefydd). Os gweithredir y cynnig hwn, byddai'n rhoi digon o lefydd ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn y tai presennol yn nalgylch yr ysgol ac yn cynnig capasiti ychwanegol i ateb rhan o'r galw gormodol mewn ardaloedd eraill.

Gall y ddarpariaeth ysgol bresennol ateb y galw uwch am lefydd mewn ysgol uwchradd Saesneg a ddaw yn sgil camau cynnar datblygiad Plasdŵr.

Ar sail y tueddiadau diweddar, amcanestynnir y bydd y galw dros dair dalgylch yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ar y cyd yn fwy na chyfanswm y capasiti ym Mlwyddyn 7 yn 2020/2021.

I ateb y galw a amcanestynnir, bydd Ysgol Plasmawr yn cynyddu ei nifer derbyn o 180 i 210 o fis Medi 2020. Caiff cynigion ar wahân eu cyflwyno i sicrhau bod digon o lefydd i ateb y galw am lefydd mewn addysg gyfrwng Cymraeg ym mhob dalgylch ysgol uwchradd Gymraeg.

Mae cytundeb a106 ar gyfer datblygiad gogledd-orllewin Caerdydd o hyd at 5,970 annedd yn cynnwys cytundeb i ddarparu safle ysgol uwchradd newydd a chyfrannu'n ariannol at ei hadeiladu. Byddai cytundebau a106 ar gyfer datblygiadau eraill yn yr ardal, gan gynnwys y tir i'r de o Pentrebane Road, Fferm Goitre Fach a Chyffordd 33 hefyd yn dod â chyfraniadau ariannol at ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Oblegid maint y datblygiadau yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd nesaf, bydd dalgylchoedd addysg uwchradd gyfrwng Cymraeg a Saesneg yn wynebu heriau heb ad-drefnu'r ddarpariaeth. Mae'r datblygiadau tai mawr sy'n mynd rhagddynt yn y gorllewin ac a gynigir yng ngogledd y ddinas yn benodol yn gofyn am ragor o lefydd ysgol uwchradd.

Gallai unrhyw gynigion i ehangu'r ddarpariaeth addysg uwchradd er mwyn ateb y galw o'r tai ychwanegol effeithio ar drefn a phatrwm presennol yr ysgolion. Caiff cynigion eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o lefydd i ateb y galw mwy am lefydd mewn ysgolion uwchradd yn y ddwy iaith, a ddaw yn sgil y datblygiadau tai newydd.

## Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar?

Gall plant yng Nghaerdydd fynd i le meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.  Rhaid iddynt fynd i'r dosbarth meithrin o leiaf ar bum hanner diwrnod yr wythnos.  Nid oes dalgylchoedd ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

Cynigir creu 48 lle meithrin rhan amser ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 lle meithrin rhan amser ar gyfer y ffrwd Saesneg yn bennaf gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cynnig dull cyson o addysgu a chynllunio er mwyn datblygu parhad a chynnydd yn nysg plant o dair oed ymlaen, a chyfrannu at godi safonau trwy'r ysgol.

Y Cyngor fel yr Awdurdod Derbyn fyddai'n gweinyddu derbyn i'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn unol â'r polisi derbyn sy'n berthnasol i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd.

Nid yw cynnig llefydd meithrin yn yr ysgol yn golygu y caiff y plentyn gynnig lle yn y Dosbarth Derbyn.  Rhaid cwblhau cais ar wahân ar gyfer derbyn i'r Dosbarth Derbyn.

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd – Ysgol Glan Morfa



## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformion yn ôl y bwriad/gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben/wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

### Tabl 11: Sgorau cyflwr ac addasrwydd

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da a gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant. |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol.  Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael a diffygion mawr. | Gwael. Llesteirio dulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol. |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol. | Gwael iawn.  Adeiladau'n llesteirio yn ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

### Tabl 12: Cyflwr ac Addasrwydd ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal

| Ysgolion | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | C+ Gwael a rhai diffygion | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd Creigiau | C+ Gwael a rhai diffygion | C – Gwael |
| Ysgol Gynradd Danescourt | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | A - Da |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd | C+ Gwael a rhai diffygion | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd Pentre-Baen | C Gwael a diffygion mawr. | A - Da |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | C Gwael a diffygion mawr. | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | A - Da |
| Ysgol Gynradd Radur | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Gymraeg Coed y Gof | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Nant Caerau | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |
| Ysgol Pencae | B – Boddhaol ond rhywfaint o ddirywiad | B – Boddhaol |

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd – Ysgol Glan Morfa



## Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arwain a llywodraethiant yn dda.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r ddau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

- Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.
- Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd edrych ar adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos hefyd sut y gallai'r newid a gynigir effeithio ar y canlynol:

- canlyniadau (safonau a llesiant)
- darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, cymorth gofal ac arweiniad a'r amgylchedd dysgu)
- arweiniad a rheoli (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

## Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu gan Estyn fel rhan o raglen genedlaethol o arolygon ysgol.  Diben arolwg yw nodi nodweddion da a phwyntiau gwan ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyrhaedda'r disgyblion.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk

## Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol ei wella. Mae'n nodi'r lefel o gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion. Yna mae sefydliadau fel y Consortiwm Canol y De (CSCJES) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/ neu broceru unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Disgrifir y system gategoreiddio isod:

| Categori cymorth | Beth yw ystyr y categori |
|---|---|
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella. |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella. |
| Oren | Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth. |

Bydd ysgolion mewn un o bedwar grŵp, A i D. Mae ysgolion lle mae'r dyfarniad yn A yn dangos y capasiti mwyaf i wella ynghyd â'r capasiti i gefnogi ysgolion eraill. Mae'r rhai lle mae'r dyfarniad yn D angen y gefnogaeth fwyaf. Cod lliw yw'r categori olaf sy'n dangos lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol - gwyrdd, melyn, oren neu goch (gyda'r ysgolion yn y categori gwyrdd angen y gefnogaeth leiaf a'r rhai yn y categori coch angen y gefnogaeth fwyaf dwys).

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Cewch ragor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr.pdf

## Tabl 13: Categoreiddio Estyn/Llywodraeth Cymru

| | Ysgol | Dyddiad yr Arolwg | Safonau | Rhagolygon ar gyfer Gwella | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Gynradd Bryn Deri | Mehefin 2013 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd Creigiau | Mawrth 2017 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd Danescourt | Tachwedd 2016 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Gorffennaf 2013 | Digonol | Digonol | Tynnwyd o'r Rhestr Fonitro 2015 |
| | Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd | Hydref 2013 | Digonol | Digonol | Tynnwyd o'r Rhestr Fonitro 2014 |
| | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf | Mawrth 2014 | Rhagorol | Rhagorol | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd Pentre-Baen | Mawrth 2015 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd Pentyrch | Mehefin 2017 | Digonol | Anfoddhaol | Tynnwyd o'r Rhestr Fonitro 2018 |
| | Ysgol Gynradd Peter Lea | Gorffennaf 2018 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Gynradd Radur | Mehefin 2011 | Da | Digonol | Tynnwyd o'r Rhestr Fonitro 2012 |
| | Ysgol Gymraeg Coed y Gof | Mai 2018 | Digonol | Boddhaol | Dan Adolygiad |
| | Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth | Ionawr 2013 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Nant Caerau | Mai 2012 | Da | Da | Ni chaiff ei dilyn |
| | Ysgol Pencae | Ionawr 2017 | Da | Rhagorol | Ni chaiff ei dilyn |

## Sut byddai'r newid yn effeithio ar safonau?

Bydd y cyfleusterau ysgol newydd yn cynorthwyo gweithredu'r Cwricwlwm Cymru newydd i ddysgwyr (3-16 oed) a gaiff ei weithredu mewn ysgolion yng Nghymru o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu dull sy'n gynhwysol ac wedi ei ddylunio i ymateb i'r angen i baratoi plant a phobl ifanc Cymru fel eu bod yn ffynnu ac yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfnach, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd yn helpu i gynorthwyo'r weledigaeth hon.

Nid oes disgwyl i'r ysgol newydd effeithio ar safonau mewn ysgolion eraill.

## Beth fyddai’r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu sy’n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig.

Mae peth o’r arian a gaiff ysgol wedi ei seilio ar anghenion dysgu’r disgyblion sydd ynddi. Mae hyn yn helpu’r ysgol i gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Gallai ysgolion hefyd gael arian ‘Gwella Anghenion Cymhleth’ i gynorthwyo unigolion ag anghenion mwy cymhleth.

Fel arfer mae gan ddisgyblion â’r lefel angen hon Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gynllun Datblygu Unigol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae’r cynllun hwn yn nodi cryfderau ac anawsterau’r plentyn ac mae’n rhoi gwybodaeth glir am sut bydd yr ysgol yn cynorthwyo dysg y plentyn.

Byddai ysgolion gan gynnwys yr ysgol newydd arfaethedig yn cynnig cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl y gofyn. Nid oes gwybodaeth ar gael sy’n awgrymu y byddai’r cynigion yn effeithio’n negyddol ar sut caiff disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol eu cynorthwyo.

Am ragor o wybodaeth, gweler Tabl 14 yn yr Atodiad.

## Beth fyddai’r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cynorthwyo disgyblion sy’n derbyn y cymorth hwn mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy’n awgrymu y byddai’r cynigion yn effeithio’n negyddol ar sut caiff disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol ganddynt yn cael eu cynorthwyo.

Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd, yn cynnwys yr ysgol newydd arfaethedig, yn cynnig cymorth sy’n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

## Beth fyddai’r effaith ar ddisgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o’r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy’n derbyn Prydau Ysgol am Ddim.  Byddai’r holl ysgolion yng Nghaerdydd, gan cynnwys yr ysgol newydd arfaethedig, yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy’n awgrymu y byddai’r cynigion yn effeithio’n negyddol ar ddisgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim.

## Beth fyddai’r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Nid oes gwybodaeth ar gael sy’n awgrymu y câi’r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Beth yw manteision y cynnig?

- Byddi darpariaeth ar gael i ateb y galw am lefydd meithrin a chynradd o'r datblygiad tai newydd ym Mhlasdŵr.
- Byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn oherwydd câi'r plant yn y ffrwd Gymraeg drochiad iaith llawn a châi'r rhai yn y ffrwd Saesneg gyfle i adeiladu sail ail iaith gadarnach.
- Byddai'r cynnig yn cyfrannu at ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru trwy gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gynaliadwy a rhoi budd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn addysg Saesneg ei chyfrwng.
- Gallai'r ysgol newydd fod yn fodel o ragoriaeth o ran dysgu iaith a helpu i gynorthwyo ymarfer newydd mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.
- Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern o safon uchel a fyddai'n cynorthwyo i weithredu cwricwlwm eang a chytbwys.
- Byddai un ysgol gynradd fawr, ddwy ffrwd yn rhoi mwy o ddiogelwch ariannol sefydlog na dwy ysgol gynradd lai ar wahân.
- Gall ysgolion mwy roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, yn cynnwys cynnal ategiad llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- Byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn caniatáu i'r ysgol gael ystod eang o arbenigedd cwricwlaidd.
- Byddai'r adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Byddai plant sy'n byw yn natblygiad tai Plasdŵr yn gallu defnyddio dulliau teithio i'r ysgol mwy llesol, megis cerdded, beicio neu sgwter.
- Byddai sefydlu dwy ffrwd iaith yn golygu y byddai ar lai o deuluoedd yn yr ardal angen teithio i rywle arall i gael addysg trwy gyfrwng eu dewis o iaith.
- Mae'r ddarpariaeth feithrin ar y safle'n galluogi datblygu a chynorthwyo cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cyntaf, ac mae'n hwyluso pontio plant oedran meithrin â'r Dosbarth Derbyn (os bu eu cais am le yn llwyddiannus).
- Mae cynnwys darpariaeth feithrin yn rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u tylwyth hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a gostwng yr anawsterau logistaidd a allai ddod yn sgil chwilio am ddarparwr gofal plant arall.

## Anfanteision posibl y cynnig

- Gallai cynyddu nifer y llefydd ysgol gynradd sy'n gwasanaethau'r ardal ehangach o ganlyniad i'r cynnig effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal. Gallai rhieni plant sy'n mynd i ysgolion eraill ystyried trosglwyddo eu plant i'r ysgol fydd newydd ei sefydlu.
  Mae'r cynnig i weithredu trefniadau derbyn fesul cam, sy'n cyfyngu ar nifer y grwpiau blwyddyn ar adeg sefydlu'r ysgol, yn ymgais i liniaru'r effaith hon.

## Risgiau sydd ynghlwm â'r cynnig

- Mae'n bosibl y bydd gormod o geisiadau am y llefydd fydd yn yr ysgol. Yn yr achos hwn, byddai meini prawf y Cyngor ar gyfer rhagor o geisiadau na sydd o lefydd yn berthnasol.
- Mae'n bosibl y bydd plant a fyddai o bosibl wedi cymryd llefydd mewn ysgolion lleol eraill yn cofrestru yn yr ysgol newydd, gan arwain at lai o ddisgyblion mewn ysgolion lleol eraill. Gan fod ysgolion yn cael y rhan fwyaf o'u harian ar sail nifer y disgyblion sydd ar eu cofrestrau, mae'n bosibl y bydd y cynnig yn effeithio ar gyllidebau ysgolion lleol eraill.
- Mae risg na fyddai'r ysgol yn cyrraedd y niferoedd a amcanestynnir ac na fyddai'n o'r herwydd yn llawn.

## Dewisiadau eraill sydd wedi eu diystyru

### Gwneud dim

- Byddai'r datblygiad yn arwain at alw uwch am lefydd ysgol yn yr ardal leol. Byddai peidio â rhoi ysgol yn arwain at broblemau gormod o geisiadau am y llefydd sydd ar gael yn yr ysgolion eraill.
- Byddai'n rhaid i nifer o blant a fydd yn byw yn y tai newydd deithio ymhellach i'r ysgol ac mae'n bosibl y byddai'n rhaid i blant yn yr ardaloedd cymdogol wedyn deithio ymhellach i ysgolion eraill.
- Byddai teuluoedd yn y datblygiad yn cael eu darbwyllo rhag defnyddio dulliau llesol o deithio i'r ysgol, megis cerdded, beicio neu sgwtio.

### Sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg â dau ddosbarth derbyn

- Byddai sefydlu ysgol Gymraeg yn unig â dau ddosbarth derbyn yn cynyddu yn sylweddol nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach.

  Fodd bynnag, mae risg sylweddol y byddai ysgol Gymraeg ychwanegol o'r maint hwn yn denu gormod o ddisgyblion o ysgolion Cymraeg eraill a dalgylchoedd eraill a allai achosi i'r ysgolion hynny beidio â llenwi a thrwy hynny ansefydlogi eu sefyllfa ariannol hwythau. Gallai hyn wedyn, amharu ar gynnydd yn y niferoedd sy'n mynd i lefydd mewn addysg Gymraeg yn yr ardal ehangach am gyfnod estynedig.

- Byddai sefydlu ysgol newydd dau ddosbarth derbyn Cymraeg yn golygu y byddai'r teuluoedd sy'n byw yn y datblygiad tai ac sy'n dymuno i'w plant fynd i ysgol Saesneg o bosibl yn gorfod teithio ymhellach. Golygai hyn wedyn y byddai nifer uwch o deuluoedd yn cymudo i'w hysgol trwy ddulliau teithio nad ydynt yn llesol, megis mewn car.

### Sefydlu ysgol Saesneg dau ddosbarth derbyn

- Byddai sefydlu ysgol Saesneg yn unig â dau ddosbarth derbyn yn cynyddu yn sylweddol nifer y llefydd cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach.
  Fodd bynnag, mae risg sylweddol y byddai ysgol Saesneg ychwanegol o'r maint hwn yn denu gormod o ddisgyblion o ysgolion Saesneg eraill a dalgylchoedd eraill a gallai achosi i'r ysgolion hynny beidio â llenwi a thrwy hynny ansefydlogi eu sefyllfa ariannol nhw.

- Ni fyddai ysgol Saesneg yn unig yn cynorthwyo'r Cyngor yn ddigonol er mwyn cyrraedd y targedau yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (2017), sy'n nodi gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Byddai sefydlu ysgol newydd dau ddosbarth derbyn Saesneg yn golygu y byddai'r teuluoedd sy'n byw yn y datblygiad tai ac sy'n dymuno i'w plant fynd i ysgol Gymraeg o bosibl yn gorfod teithio ymhellach. Golygai hyn wedyn fod nifer uwch o deuluoedd yn cymudo i'r ysgol trwy ddulliau teithio nad ydynt yn llesol, megis car.

### Sefydlu dwy ysgol, y naill a'r llall ag un dosbarth derbyn

- Byddai rhoi dwy ysgol ar wahân a'r ddwy â chorff llywodraethu ac arweinyddiaeth ar wahân yn golygu y byddai'r ddwy yn llai eu maint ac yn methu â gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Byddai'r ddwy ysgol yn llai diogel yn ariannol nag ysgol fwy.
- Ni fyddai dwy ysgol ar wahân, gyda chorff llywodraethu ac arweinyddiaeth ar wahân yn gallu elwa o'r rhagor o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth y gall ysgolion mwy eu denu a'u cynnal.
- Byddai dwy ysgol o dan gorff llywodraethu wedi ei ffedereiddio yn dod â nifer o fanteision y model dwy ffrwd arfaethedig; fodd bynnag, byddai'r model hwn o lywodraethu ac arwain yn ddrutach a byddai'n effeithio'n fwy ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i ysgolion eraill.

## Trefniadau Llywodraethiant

Os aiff y cynnig yn ei flaen, caiff corff llywodraethu dros dro ei sefydlu ar gyfer unrhyw ysgol newydd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol.  Câi ystod o randdeiliaid eu cynrychioli ar y corff llywodraethu dros dro, yn cynnwys rhieni, athrawon (o ysgolion lleol) staff nad ydynt yn addysgu (o ysgolion lleol), cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a phartneriaid cymunedol.  Byddai'r Cyngor yn penodi staff nad ydynt yn addysgu o'r Awdurdod Lleol a rhieni lywodraethwyr a byddai'r corff llywodraethu dros dro yn penodi'r athrawon-lywodraethwyr a'r llywodraethwyr cymunedol.

Byddai'r corff llywodraethu'n gyfrifol am benodi Pennaeth, cytuno ar strwythur staffio a phenderfynu ar agweddau eraill megis enw'r ysgol, ei gwisg ysgol a'i logo.

## Materion Ariannol

Mae'r ysgol gynradd newydd ar ddatblygiad Plasdŵr yn cael ei chodi gan y datblygwr a'r bwriad yw ei chwblhau yn ystod haf 2021.

Sicrhawyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol trwy gytundeb adran 106 ar gyfer y datblygwr tai i ddarparu safle newydd yr ysgol a'r adeilad newydd. Byddai'r Cyngor a'r datblygwr yn rheoli'r broses, yn sicrhau y bydd egwyddorion dylunio'r adeiladau newydd yn gyson ag adeiladau ysgolion cynradd newydd diweddar yng Nghaerdydd.

Caiff ysgolion fwyafrif eu cyllid ar sail nifer y disgyblion ar eu cofrestr. Mae ysgolion hefyd yn cael cyllid ychwanegol ar gyfer eitemau megis costau eiddo, sy'n cynnwys gwresogi, goleuo, glanhau, a chynnal a chadw.

Byddai costau refeniw ychwanegol y nifer mwy o ddisgyblion yn cael eu talu trwy'r fformiwla cyllido ysgolion.

## Materion Staff

Bydd Gwasanaethau Pobl AD y Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Dros Dro'r ysgol newydd i ystyried a rhoi trefniadau arweinyddiaeth ar waith cyn agor yr ysgol newydd. Nod hyn yw rhoi amser ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol gan yr ysgol ar gyfer agor.

Bydd gofyn hefyd i'r Corff Llywodraethu Dros Dro ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau AD y byddai'n eu mabwysiadu parthed cyflogi a rheoli staff. Bydd y Cyngor yn argymell mabwysiadu Llawlyfr AD i Ysgolion sydd wedi ei ddylunio i gynnig polisïau a gweithdrefnau, gwybodaeth a chanllawiau i gyrff llywodraethu, Penaethiaid a staff, ar agweddau adnoddau dynol a materion cyflogaeth sy'n ymwneud ag ysgolion.

Byddai mabwysiadu'r Llawlyfr AD yn llawn yn golygu y byddai unrhyw swyddi staff gweigion yn yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i unigolion ar y gofrestr adleoli ysgolion, yn unol â Pholisi Adleoli a Dileu Swyddi'r Cyngor ar gyfer ysgolion.

## Materion Trafnidiaeth

Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o wneud 50% o'r holl deithiau trwy ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy. Gall lleihau cyfran y teithiau ysgol a wneir mewn ceir a gwneud y gorau o gyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau cynaliadwy gyfrannu'n sylweddol at gyrraedd y targed hwn a gostwng pwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn y cyfnodau prysuraf.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a bydd yn cefnogi gweithredu camau allweddol a chanlyniadau Targed 5 Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant y Cyngor (2018), sy'n cyfeirio at sicrhau amgylcheddau diogel y tu allan ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a sgwtio a theithio llesol i'r ysgol.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Mae'r uwch gynllun ar gyfer datblygiad Plasdŵr wedi ei ddylunio i hwyluso teithiau yn a'r tu hwnt i'r datblygiad tai trwy gerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys darparu rhwydwaith o lwybrau beics, yn cynnwys llwybrau ar wahân i lonydd y traffig.

Caiff Cynllun Teithio Llesol ei ddatblygu ar y cyd â materion cynllunio, dylunio a chodi'r ysgol newydd ac mae'n debygol o fod yn amod yn y cydsyniad cynllunio.

Bydd swyddogion tîm trafnidiaeth y Cyngor yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y timau cynllunio ac addysg i ddatblygu Cynllun Teithio Llesol a sicrhau y caiff ei deilwra'n llawn ar gyfer lleoliad yr ysgol a'i hanghenion yn y dyfodol.

## Trefniadau Teithio Dysgwyr

Nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i'r ysgol ac oddi yno. Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Rhagwelir y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg.

Mae'r cynnig yn ceisio cynyddu nifer y llefydd ysgol cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal ac yn ceisio gweithredu'r newid mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd y bydd effaith negyddol ar yr ysgolion presennol.

Byddai cynnig 210 o lefydd Cymraeg ychwanegol fel rhan o ysgol gynradd ddwy ffrwd yn golygu y byddai cyfran gyffredinol y llefydd Cymraeg ar draws y ddinas yn cynyddu.

Mae cynnig 210 o lefydd mewn ffrwd a ddisgrifir fel cyfrwng Saesneg yn Bennaf - ond gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg, mewn ysgol ddwy ffrwd, a hynny o dan un strwythur tîm rheoli a llywodraethiant, yn ymgais i gynyddu'r gyfran gyffredinol o bobl ddwyieithog yng Nghaerdydd.

## Cydraddoldeb

Proses sy'n astudio polisi neu gynllun yw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu'n anffafriol yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion sydd wedi eu gwarchod yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud.

Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r adeilad ysgol newydd. Byddai'r asesiad effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Cynllun 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

## Effaith Gymunedol

Wrth ystyried y potensial y bydd effaith ar y gymuned ehangach o ganlyniad i gynnig, ystyrir y canlynol: Gofod Agored Cyhoeddus, tir parc, y gymuned yn defnyddio cyfleusterau ysgol ar hyn o bryd, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr bod y cynnig yn osgoi effaith negyddol os yw hynny'n bosibl.

Mae llawer o ysgolion wedi sefydlu neu wrthi'n datblygu darpariaeth chwaraeon a hamdden ehangach i'r cyhoedd ei defnyddio. Amcan allweddol yw rhoi'r gallu i drydydd parti ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion. Byddai hyn ar sail ariannol gynaliadwy.

Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleusterau a rennir mewn ysgolion â ffocws ar gymuned yw:

- rhoi cyfleoedd i'r gymuned leol a sefydliadau chwaraeon i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol er mwyn gwella iechyd a datblygu sgiliau, yn benodol ymhlith grwpiau nad ydynt yn gwneud llawer;
- gweithredu yn unol â'r agenda genedlaethol ar gyfer chwaraeon gan ystyried strategaethau a fabwysiedir yn genedlaethol;
- ennyn agweddau cadarnhaol o ran chwaraeon a gweithgareddau corfforol ymysg pobl ifanc a gostwng y gyfradd rhoi'r gorau i chwaraeon wrth fynd yn hŷn;
- cynyddu nifer y bobl o bob oedran a gallu sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn cynnwys pobl ag anableddau;
- defnyddio'r cyfleusterau i annog ystod, safon a nifer y cysylltiadau clybiau chwaraeon ysgol a chreu cystadleuaeth sy'n cynnwys pobl ifanc ac oedolion;
- rhoi mynediad fforddiadwy i gyfleusterau a hunan-ariannu a dod yn gost niwtral yn y lle cyntaf, a chreu incwm cynaliadwy i'r ysgol yn y dyfodol.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Byddai'r ysgol newydd yn cynnig darpariaeth ysgol leol i blant sy'n byw yn natblygiad tai Plasdŵr.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i annog defnyddio dulliau cynaliadwy a llesol o deithio i'r ysgol, megis cerdded a beicio.

Byddai unrhyw ddyluniad a aiff yn ei flaen yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau cyfleusterau modern o safon uchel sy'n gallu ymateb i anghenion y boblogaeth bresennol o ddisgyblion a chefnogi gweithredu dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddai hyn hefyd yn ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau yn dibynnu ar yr angen wrth i amser fynd rhagddo, megis newid yn y cwricwlwm a newid ym math anghenion disgyblion.

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth fyddai dalgylch yr ysgol petai'r cynnig yn mynd rhagddo?**

Mae angen i ddalgylchoedd fod o faint ac mewn ardal ddaearyddol a all gynnal ysgolion yn agos at i'w capasiti disgyblion arfaethedig. Petai'r cynnig sefydlu ysgol newydd yn bwrw yn ei flaen, byddai angen ymgynghori yn ddiweddarach ar adolygu trefniadau dalgylchoedd.

**Fyddai'r cynigion yn effeithio ar draffig yn yr ardal leol?**

Byddai goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth sy'n ofynnol er mwyn cael cydsyniad cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pe gweithredid y cynnig hwn.

Byddai cynnig addysg Gymraeg a Saesneg ar yr un safle'n effeithio'n gadarnhaol ar draffig lleol oherwydd na fyddai angen i bobl sy'n byw yn y datblygiad tai newydd deithio ymhell i fynd i gael addysg o'u dewis.

**Pryd fyddai Corff Llywodraethu yn cael ei sefydlu?**

Os aiff y cynnig yn ei flaen, cail corff llywodraethu dros dro ei sefydlu ar gyfer unrhyw ysgol newydd ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai ystod o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ar y corff llywodraethu dros dro, yn cynnwys rhieni, athrawon (o ysgolion lleol), staff nad ydynt yn addysgu (o ysgolion lleol), cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a phartneriaid cymunedol. Y Cyngor fyddai'n penodi'r staff nad ydynt yn addysgu o'r Awdurdod Lleol a rhiant-lywodraethwyr a byddai'r corff llywodraethu dros dro yn penodi'r athrawon-lywodraethwyr a'r llywodraethwyr cymunedol.

**Beth fyddai'r wisg ysgol?**

Y Corff Llywodraethu fyddai'n penderfynu beth fyddai gwisg yr ysgol newydd.

**Sut gall ysgolion wneud cais am le yn yr ysgol newydd?**

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyhoeddi llawlyfr Gwybodaeth i Rieni, sy'n rhoi manylion i rieni am drefniadau derbyn i ysgolion yng Nghaerdydd, ac yn egluro sut mae cofrestru manylion plant. Gellir gweld copi o'r llyfryn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk trwy e-bostio derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk neu ffonio'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar 029 2087 2909.

## **Camau nesaf,** sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 15 isod:

**Tabl 15: Camau pellach** (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid.)

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori | 09 Medi - 28 Hydref 2019 |
| Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Ionawr 2020 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Ionawr 2020 |
| Dyddiad y mae disgwyl i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Chwefror 2020 |
| (Pennu) penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Ebrill 2020 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiad ar wefan y Cyngor a hysbysiad o benderfyniad y Cabinet. | Ebrill 2020 |

### Y cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn cychwyn ddydd Llun 9 Medi ac yn dod i ben ddydd Llun 28 Hydref 2019. Gweler tudalen 4 am fanylion ynghylch sut mae ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi unrhyw hysbysiadau statudol (yn amodol ar gymeradwyo). Gallwch ofyn am gopi caled o'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i'r Cyngor benderfynu cymeradwyo hysbysiad statudol ai peidio. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law y Cabinet. Mae'r broses hon yn ofyniad cyfreithiol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Adroddiad Gwrthwynebu

Os ceir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol cyhoeddedig, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau hynny a'i ymateb iddynt. Byddai'r Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Penderfynu ar y cynnig

Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu mai Cabinet y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

## Hysbysu'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

# Dweud Eich Dweud

## Beth yw'r cynnig?

**O fis Medi 2012, rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Sefydlu ysgol gynradd ddwy ffrwd newydd â dau ddosbarth mynediad (60 lle) a fydd yn gwasanaethu datblygiad tai Plasdŵr yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Bydd un dosbarth mynediad Cymraeg ac un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf, ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.
- Darparu 48 lle rhan amser yn y feithrinfa ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 lle meithrin ar gyfer y ffrwd Saesneg

Mae eich barn chi'n cyfrif. Rhannwch eich barn gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon. Cewch y cyfeiriad ar waelod y ffurflen.
- Cwblhau'r ymateb ar-lein trwy fynd i: www.caerdydd.gov.uk/Plasdwrschool

Os yw'n well gennych, e-bostiwch eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Llun 28 Hydref 2019. Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried.**

Fel pa un o'r canlynol rydych yn ymateb: Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- ○ Rhiant
- ○ Aelod staff
- ○ Llywodraethwr
- ○ Disgybl
- ○ Aelod o'r Cyhoedd â Diddordeb

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd ddwy ffrwd newydd â dau ddosbarth mynediad i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd?

○ Ydw ○ Nac ydw

Do you support the proposed establishment of nursery provision at the new school?

○ Ydw ○ Nac ydw

Os ydych chi'n cefnogi neu beidio, rhowch eich rhesymau pam

| |
|---|
| |

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu awrgymiadau eraill i'r cynnig, rhowch fanylion isod

A oes gwasanaethau eraill yr ydych chi'n credu a fyddai'n helpu gyda'r nifer fydd yn cael eu derbyn i'r ysgol newydd ac yr hoffech i ni eu hystyried? (e.e. opsiwn i brynu gofal plant cofleidiol, clwb brecwast, clwb gwyliau ayb)

Unrhyw sylwadau eraill?

Enw: ______

Cyfeiriad: ______ Cod Post: ______

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol. Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

## Diolch ichi am eich sylwadau.

Anfonwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

Caiff yr wybodaeth a gyflwynwch ei phrosesu gan yr Ysgol a Chyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Caiff yr wybodaeth a gawn ynghylch yr ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond mae'n bosibl y bydd yr Ysgol/Cyngor yn ei defnyddio neu y caiff ei datblygu gan eraill os angen yn unol a'r gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, ni fyddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael ei defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth ar sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx.



# Atodiadau

# Atodiad 1

## Dadansoddiad cryno o’r disgyblion sy’n byw yn nalgylch pob ysgol

Mae Tabl 6 isod yn dangos:

- nifer y disgyblion sy’n byw ym mhob dalgylch ysgol Saesneg a dosbarthiadau cyfrwng Saesneg mewn ysgolion dwy ffrwd;
- yr ysgol a fynychir

**Tabl 6: Nifer y llefydd a gymerwyd mewn ysgolion cynradd Saesneg a dwy ffrwd o’r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6** (CYBLD Ionawr 2018)

| | Dalgylch | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr ysgol a fynychir | Ysgol Gynradd Bryn Deri | Ysgol Gynradd Creigiau (dalgylchCS) | Ysgol Gynradd Danescourt | Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth (dalgylch CS) | Ysgol Gynradd Pentre-Baen | Ysgol Gynradd Pentyrch | Ysgol Gynradd Peter Lea | Ysgol Gynradd Radur | Ardaloedderaill | Nifer ar y Gofrestr |
| Bryn Deri | 163 | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 | 2 | 4 | 28 | 5 | 207 |
| Creigiau (Ffrwd Saesneg) | 3 | 179 | 0 | 3 | 0 | 4 | 91 | 1 | 10 | 75 | 366 |
| Danescourt | 4 | 2 | 168 | 37 | 2 | 22 | 1 | 85 | 15 | 48 | 384 |
| Y Tyllgoed | 0 | 0 | 0 | 120 | 0 | 34 | 0 | 26 | 1 | 57 | 238 |
| Gwaelod y Garth Ffrwd Saesneg) | 14 | 0 | 0 | 3 | 76 | 0 | 19 | 0 | 34 | 103 | 249 |
| Ysgol Gatholig y Teulu Sanctaidd | 0 | 0 | 0 | 29 | 0 | 66 | 0 | 29 | 1 | 17 | 142 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf | 0 | 0 | 11 | 110 | 0 | 10 | 0 | 60 | 3 | 225 | 419 |
| Pentre-Baen | 0 | 0 | 0 | 27 | | 116 | 0 | 12 | 1 | 52 | 208 |
| Pentyrch | 0 | 1 | 1 | 0 | 5 | 0 | 107 | 2 | 0 | 18 | 134 |
| Peter Lea | 0 | 0 | 4 | 54 | 1 | 79 | 0 | 134 | 0 | 33 | 305 |
| Radur | 40 | 2 | 6 | 4 | 3 | 3 | 22 | 2 | 299 | 21 | 402 |
| Disgyblion o’r dalgylch hwn sy’n mynd i’r ysgolion hyn | 224 | 184 | 192 | 388 | 89 | 334 | 242 | 355 | 392 | - | 2400 |
| Disgyblion o’r dalgylch hwn sy’n mynd i ysgolion CS eraill | 7 | 3 | 2 | 207 | 7 | 28 | 5 | 27 | 14 | - | 300 |
| Disgyblion sy’n byw ym mhob dalgylch ac sy’n mynd i ysgolion cynradd CS | 231 | 187 | 194 | 595 | 96 | 362 | 247 | 382 | 406 | - | 2700 |

Nifer y disgyblion oedran cynradd sydd yn nalgylchoedd yr ysgolion uchod ac sy’n mynychu ysgolion neu ddosbarthiadau cynradd Saesneg yw 2,700. Cymhared hyn â nifer y llefydd ysgol sydd ar gael

mewn ysgolion a dosbarthiadau Saesneg, sef 3,259.

Gan ystyried yn unig yr ysgolion sydd agosaf at yr ysgol newydd a gynigir er mwyn gwasanaethu datblygiad Plasdŵr (sef Ysgol Gynradd Danescourt, Ysgol Gynradd Peter Lea ac Ysgol Gynradd Radur, mae 982 disgybl yn mynychu ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Saesneg o'i gymharu â'r 1,160 lle sydd ar gael yn yr ysgolion hyn (15% yn ormod).

Gallai rhieni ddatgan dewis unrhyw ysgol ac yn dibynnu ar y galw lleol, mae'n bosibl y gall plant fynd i ysgolion nad ydynt yn lleol i'w cyfeiriad cartref.

Mae Tabl 7 isod yn dangos:

- nifer y disgyblion sy'n byw ym mhob dalgylch ysgol Gymraeg a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd
- yr ysgol a fynychir

### Tabl 7: Nifer y llefydd a gymerwyd mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwy ffrwd o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 (CYBLD Ionawr 2018)

| | Dalgylch | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr ysgol a fynychir | Ysgol Gynradd Creigiau (CC) | Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | Ysgol Gymraeg Nant Caerau | Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth (CC) | Ysgol Pencae | Ardal arall | Nifer ar y Gofrestr |
| Creigiau (ffrwd Gymraeg) | 241 | 51 | 1 | 3 | 1 | 69 | 366 |
| Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof | 0 | 278 | 45 | 0 | 1 | 12 | 336 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 0 | 25 | 161 | 0 | 0 | 11 | 197 |
| Ysgol Gwaelod y Garth (Ffrwd Gymraeg) | 19 | 24 | 0 | 122 | 0 | 84 | 249 |
| Ysgol Pencae | 0 | 20 | 2 | 0 | 155 | 30 | 207 |
| Disgyblion o'r dalgylch hwn sy'n mynd i'r ysgolion hyn | 260 | 398 | 209 | 125 | 157 | - | 1149 |
| Disgyblion o'r dalgylch hwn sy'n mynd i ysgolion eraill CC | 3 | 100 | 37 | 3 | 46 | - | 189 |
| Disgyblion sy'n byw ym mhob dalgylch ac sy'n mynd i ysgolion cynradd CC | 263 | 498 | 246 | 128 | 203 | - | 1338 |

Nifer y disgyblion oedran cynradd sydd yn nalgylchoedd yr ysgolion uchod ac sy'n mynychu ysgolion neu ddosbarthiadau cynradd Cymraeg yw 1,338. Cymhared hyn â nifer y llefydd ysgol sydd ar gael mewn ysgolion a dosbarthiadau Cymraeg, sef 1,397.

O ystyried yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig sydd agosaf at yr ysgol newydd a fydd yn gwasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr (Ysgol Pencae ac Ysgol Coed y Gof), mae 701 disgybl yn mynd i ysgol gynradd gymunedol neu ysgol ddwy ffrwd Gymraeg a 575 lle ar gael yn Ysgol Pencae ac Ysgol Coed y Gof (diffyg o 22%).

# Atodiad 2

## Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 14 isod yn dangos canrannau:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- disgyblion o Leiafrif Ethnig

### Tabl 14: Canran y disgyblion mewn ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio arnynt ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt ac a adnabuwyd fel disgyblion Lleiafrif Ethnig.

| Ysgol | % y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol | % y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y disgyblion â datganiad ADY | % y disgyblion yn cael Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd | % y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt | % y disgyblion o Leiafrif Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | 17% | * | * | 6% | * | 10.3% |
| Ysgol Gynradd Creigiau | 5% | 4.1% | * | 2.8% | * | 3.2% |
| Ysgol Gynradd Danescourt | 26.5% | 2.2% | 1.9% | 11.3.% | 12% | 23.9% |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | 11.5% | 8.7% | 4.1% | 30.7% | 11% | 25.3% |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd | 7.6% | 5% | * | 27.2% | 5.9% | 37.8% |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf | 11.1% | * | * | 3.5% | 1.7% | 23.5% |
| Ysgol Gynradd Pentre-Baen | 13% | 6.5% | 14.1% | 44.4% | 18.5% | 27.3% |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | * | * | * | 9.6% | * | 9.9% |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | 17.6% | 7.7% | * | 22.9% | 4.2% | 18.4% |
| Ysgol Gynradd Radur | 3.8% | 6.5% | 2.3% | 1.6% | 3.8% | 16.3% |
| Ysgol Gymraeg Coed y Gof | 14.7% | 9.1% | 3.2% | 24.4% | 18.4% | 11.2% |
| Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth | 13.6% | 2.8% | * | 3.5% | * | 4.2% |
| Ysgol Nant Caerau | 18% | 10.8% | * | 25.7% | * | 9.6% |
| Ysgol Pencae | 11.9% | 5.1% | * | 2.1% | * | 6.3% |
| **Cyfartaledd Caerdydd** | **14.8%** | **6%** | **1.9%** | **22.3%** | **19.4%** | **34.5%** |
| **Cyfartaledd Cymru** | **15%** | **8.1%** | **1.7%** | **18.9%** | **6.1%** | **11.7%** |

* Data ddim yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi neu nid oedd ar gael am reswm arall.

*Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk